

Dyddiad cyhoeddi: 22 Rhagfyr 2020

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:

"Fe fuaswn i'n ddiolchgar iawn pe baech chi'n darparu manylion y contract isod dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Gwasanaethau Canolfan Gyswllt ar gyfer TrC:

<http://ted.europa.eu/udl?uri=TED:NOTICE:465188-2020:TEXT:EN:HTML>

Dyma'r manylion sydd eu hangen arnom ni:

- 1. Cyflenwyr a wnaeth gais am gael eu cynnwys ar bob fframwaith/contract ac a fu'n llwyddiannus ac yn aflwyddiannus yn y camau Holiadur Cyn-gymhwyso a Gwahoddiad i Dendro*
- 2. Gwariant gwirioneddol ar y contract/fframwaith hwn (ac unrhyw is lotiau), o ddechrau'r contract hyd at y dyddiad presennol*
- 3. Dyddiad dechrau a hyd y fframwaith*
- 4. A oes cymal ymestyn yn y fframwaith/contract ac, os felly, hyd yr estyniad?*
- 5. A oes penderfyniad wedi'i wneud eto ynglŷn a fydd y fframwaith/contract yn cael eu hymestyn neu eu hadnewyddu?*
- 6. Pwy yw'r uwch swyddog (y tu allan i gaffael) sy'n gyfrifol am y contract hwn?"*

Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydym ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:

Mewn ymateb i gwestiwn 1:

Fel y nodwyd yn yr Hysbysiad Contract y cyfeiriwyd ato, 'gweithdrefn agored' oedd y broses o gaffael y gwasanaethau hyn ac felly nid oedd cam Holiadur Cyn-gymhwyso ar wahân. Mae'r broses gaffael yn mynd rhagddi ar hyn o bryd ac mae'r wybodaeth am gyflenwyr sy'n tendro yn fasnachol sensitif.

Bydd nifer y tendrau a dderbyniwyd a gwybodaeth am y tendrwr llwyddiannus yn cael eu cyhoeddi drwy Hysbysiad Dyfarnu Contract, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar ôl cwblhau'r cyfnod segur yn llwyddiannus ac unrhyw ddyfarniad contract dilynol. Does dim modd rhannu'r wybodaeth hon ar hyn o bryd.

Mewn ymateb i gwestiwn 2:

Ni chafwyd unrhyw wariant ar y contract hwn fel y cyfeirir ato yn yr Hysbysiad Contract dan sylw, gan nad yw wedi cael ei ddyfarnu eto.

Mewn ymateb i gwestiynau 3, 4 a 5:

Os caiff y contract ei ddyfarnu, bydd cyfnod y contract yn 18 mis gyda'r opsiwn i ymestyn y contract am 12 mis bob 6 mis. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynglŷn a fydd y contract yn cael ei ymestyn, a bydd unrhyw benderfyniad i ymestyn yn cael ei wneud yn y dyfodol. Rydym ni'n bwriadu gweithredu'r contract ddechrau mis Ionawr 2021, gyda dyddiad cychwyn o 1 Chwefror 2021.

Mewn ymateb i gwestiwn 6:

Rydym ni'n rhagweld mai Pennaeth Profiad Cwsmeriaid Trafnidiaeth Cymru fydd perchennog y contract ar ôl iddo gael ei ddyfarnu.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru